

## CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CLERC : John MacLennan, 19, Lon Garnedd, Abergele, LL22 7EW Ffon : 01745 826901 Sym :  
07903328655 e-bost : [johnmaclellan9@icloud.com](mailto:johnmaclellan9@icloud.com)

### MUNUDAU'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AM 7.30y.h. DDYDD LLUN , MEDI 5ed, 2016, YN Y GANOLFAN GYMUNEDOL, LLANELIAN YN RHOS.

1. CROESO - Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod
  
2. YN BRESENNOL - Y Cadeirydd, y Cynghorydd Tudur W. Jones; yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Hefin Williams, a'r Cynghorwyr D.Rhys Davies; Goronwy Davies; Irwedd Griffiths; D.Gwyn Jones; Gwyndaf O.Roberts; John D.Roberts; Goronwy R.Williams a'r Cynghorydd Sir, Ifor G. Lloyd.
  
3. YMDDIHEURIADAU - Y Cynghorwyr Eifion Evans; Bryn Jones ac Ifor O.Jones.
  
4. DATGANIADAU O DDIDDORDEB - Dim.
  
5. MUNUDAU - PENDERFYNWYD cadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo munudau cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar Awst 1af, 2016, yn y Ganolfan Gymunedol, Llanelian yn Rhos.
  
6. MATERION YN CODI
  - 8.15/14(iii) Yr arwydd uwchben Ysbyty Abergele
  - 9.15/14(i) Cwyn ynglŷn â'r llwybr cyhoeddus yn Ffordd Meifod.
  - 9.15/14(ii) Cwyn ynglŷn â Ffromlys Chwarennog (Himalayan Balsam) yn Rhyd-y-Foel. Cwyn GF24001.
  - 9.15/14(iv) Cwyn ynglŷn â diffyg arwyddion ar giât y cae chwarae. Cwyn GF24001.
  - 11.15/14(i) Cwyn ynglŷn â'r mat ar y cae chwarae yn Llanelian. Cwyn GF24001.
  - 1.16/14(iv) Cwyn ynglŷn â thyllau ffordd yn y ffordd yn y groesffordd wrth Gae Borth.
  - 1.16/14(v) Arllwys ysbwriel ar ffordd Pen-y-Bryn i Benrefail. NODWYD bod penderfyniad bellach wedi ei wneud.

1.16/14(vii) Adroddiad bod y bont wrth y Lodge wedi ei thanseilio'n ystod y llifogydd diweddar.

7.16/14(i) Gwrychoedd ger Twnan heb eu torri.

7.16/14(ii) Deiliach gwyrdd yn tyfu allan o do Llais Afon.

7.16/14(iii) Eitem agenda sefydlog ynglŷn â chyflogi neu contractio gwaith lleol.

8.16/14(i) Baw cŵn yng nghae chwarae Llanelian ac ar y ffordd. Mae GF26057 yn cyfeirio.

8.16/14(ii) Arllwys ysbwriel yng nghroesffordd Gloddaeth.

8.16/14(iii) Tyllau ffordd rhwng Cwm Eithin a Thŷ Celyn. NODWYD bod penderfyniad wedi ei wneud.

8.16/14(iv) Tyllau ffordd yng nghroesffordd Garnedd. NODWYD bod penderfyniad wedi ei wneud.

9.16/14(v) Mae gor-dyfiant dros yr arwyddion sy'n rhybuddio lorïau am beryglon culni'r ffordd yn Betws.

9.16/14(vi) Mae graean yr afon wedi dod yn berygl i achosi gor-lifo'r pentref, yn enwedig o dan y bont.

9.16/14(vii) Roedd pryder nad oedd arwyddion rhybudd i'w gweld yn syth ynglŷn â'r perygl; i gerddwyr yn troedio heibio i'r eglwys. Roedd y ffordd yn gul a heb lwybr troed, ac roedd cerbydau mawr yn dal i ddefnyddio'r ffordd gan ei gwneud yn amhosibl i gerddwyr fynd o gylch y tro heb berygl iddyn nhw a'u plant.

Mae GF 26058 yn cyfeirio.

Fe osodir rhifau GF24521 a GF26058 ar yr archwiliad Ward onibai y byddant wedi eu cwblhau cyn hynny.

## 7. GOHEBIAETH GYFFREDINOL -

9.16/7(i) Cais gan Darren Millar AC i arddangos posteri ac amseroedd syrjeri. NODWYD HYN A CHYTUNWYD.

## 8. CYLLID - Cytunwyd i nodi ac arwyddo adroddiadau'r Banc am y cyfnod yn gorffen Awst 21ain, 2016, sef:-

Cyfrif cymunedol .....  
£19,449.94

Cyfrif busnes .....£5524.54

## 9. TALIADAU A DDERBYNIWYD - Dim

10. TALIADAU ALLAN - PENDERFYNWYD TALU pob eitem a restrir isod: \_

i.	9.16/10(i) Cyflog y Clerc .....	£ 287.23
ii.	9.16/10(ii) HMRC...(Bacs).....	£ 71.81
iii.	9.16/10(iii) Cyfieithu ½ y cyfan.....	£ 16.50
iv.	9.16/10(iv) Treuliau chwarterol .....	£ 75.00
v.	9.16/10(v) Stampiau.....	£ 25.49
vi.	9.16/10(vi) Deunyddiau ysgrifennu.....	£ 4.79

11. CEISIADAU AM GRANT - Dim.

12. MATERION SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD

4.16/12(i) Adroddiadau'n ymwneud â materion archwiliad Ward. Dywedodd y Cyngorydd Ifor Lloyd fod yr awrchwiliad ward i' gael ei gynnal yn fuan, a gofynnodd i bob aelod gysylltu gydag ef os oedd ganddynt unrhyw fater ychwanegol fel y gellid eu cynnwys yn yr archwiliad. Gofynnodd am i lythyr o ddiolch gael ei anfon i Mr. Richard Owen yn diolch iddo am ei holl waith caled a'i ymroddiad i Ysgol Betws fel llywodraethwr hir-dymor.

9.16/12(i) NODWYD llythyr gan y Gwasanaethau rheoleiddio ynglŷn ag is-ddeddfau yn ymwneud â thatwio, lliwio croen peth-barhaol, tyllu cosmetig, ac electrolysis.

13. MATERION CYNULLIAD CYMRU - Dim.

14. MATERION CYFFREDINOL O FEWN Y GYMUNED -- Dim byd ar hyn o bryd.

15. UNRHYW FATER ARALL

9.16/15(i) Pwyllgor arian grant y Parc Heulol. PENDERFYNWYD cynnal cyfarfod cychwynol ar Hydref 3ydd, 2016, i ddechrau am 7.00y.h. i drfaod amodau, dosbarthu cronfeydd, cyfansoddiad y pwyllgor, ac amllder y cyfarfodydd.

9.16/15(ii) Atgoffwyd yr aelodau y byddai'r praesept yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

16. CYNLLUNIO -

9.16/16(i) 0/43134 Amrywiad ar amod 2,5,9, a 10 i ganiatáu gwared gwrych ffin a chodi wal garreg. PENDERFYNWYD GWRTHWYNEBU oherwydd bod yr aelodau'n teimlo bod y wal newydd wedi cymryd lle'r gwrych a'r ymyl fel ei bod yn awr yn gorgyffwrdd â'r ffordd gan beryglu defnyddwyr ffordd eraill.

9.16/16(ii) 0/43132 Ail adeiladu lein uchel 11kv bresennol Rhyd-y-Foel a Betws yn Rhos. PENDERFYNWYD DIM GWRTHWYNEBIAD.

9.16/16(iii) 0/43077 Newid defnydd o dir fel lle chwarae plant yn safle Carafanau Tan 'Rallt yn Rhyd-y-Foel. PENDEERFYNWYD GWRTHWYNEBU. Roedd aelodau'n bryderus y byddai'r lle chwarae'n gorgyffwrdd â safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig (SSSI), a hefyd â chofadail hynafol.

9.16/16(iv) 0/43074 Sied amaethyddol newydd arfaethedig ar gyfer da byw ym Mryn Person, Ffordd Galch, Llanelian yn Rhos. PENDEERFYNWYD DIM GWRTHWYNEBIAD, ond gofynnodd yr aelodau am i'r sied gael ei symud draw oddi wrth adeiladau cyfagos.

9.16/16(v) 0/43048 Troi adeilad presennol yn dair uned breswyl gwyliau ym Mhen y Geulan, Betws yn Rhos. PENDERFYNWYD GWRTHWYNEBU. Roedd yr aelodau o'r farn nad oedd y cais newydd hwn erto'n tawelu eu pryderon ynglŷn â ffordd allan i'r ffordd o'r safle. Roedd y ffordd allan arfaethedig yn llawer rhy gul i mewn i ffordd gyda gwrychoedd uchel, yn ei gwneud yn beryglus i ddefnyddwyr ffordd eraill. Gofynnodd yr aelodau hefyd a fyddai'r safle hwn yn golygu mynd y tu hwnt i ffiniau llawnder lleol. Gofynnwyd hefyd sut y byddid yn cael gwared o'r garthffosiaeth.

CADEIRYDD.....

DYDDIAD.....